PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 51/52 | Rhagfyr 18/25, 2025 | 50c.

## Dathliad capel Bethlehem Dyffryn Ceidrych

*Ar fore Sul, 28 Medi daeth cynulleidfa luosog ynghyd i ddathlu 225 mlwyddiant capel Bethlehem, Dyffryn Ceidrych.*

### Cychwyniadau

Codwyd y capel cyntaf ym 1800 gyda'r achos yn parhau yn y llecyn hyfryd yma wrth odre'r Garn Goch. Wrth i'r gynulleidfa gynyddu cafodd y capel ei ailgodi ym 1834 a'i adeiladu ar ei ffurf bresennol ym 1872. Cyn adeiladu'r capel cyntaf cynhaliwyd cyfarfodydd Cristnogol ar aelwydydd cyfagos – Bancyfedwen, Ysgubor y Twyn a Penfforest, â ffyddloniaid Annibynnol y cylch yn mynychu'r capeli tu draw i Drichrug sef Jerwsalem a Capel Maen Gwynfe. Aelodau Jerwsalem fu'n flaenllaw iawn gyda chychwyn yr achos yn Nyffryn Ceidrych. Tristwch yw bod y ddau gapel erbyn hyn wedi cau eu drysau.





### Gofalaethau

Mae Bethlehem wedi perthyn i sawl gofalaeth ers y cychwyn cyntaf, Seion a Sardis Myddfai, Llansadwrn, Penybanc, Carmel, Capel Isaac, ond erbyn hyn mae'r uniad wedi bod gyda Providence, Llangadog ers 1906. David Davies, gŵr o ardal Drefach, Llangeler oedd y gweinidog cyntaf a bu gofal Sardis, Seion a Bethlehem ganddo ar hyd ei weinidogaeth. Mae'n debyg mai David Davies yn ei gyfnod oedd pregethwr mwyaf swynol y cylchoedd hyn, ac fe gafodd ei bersonoliaeth hawddgar a'i lais soniarus ddylanwad enfawr ar gynulleidfaoedd ei ddydd. Mae pedwar ar ddeg o weinidogion wedi gwasanaethu ym Methlehem ers y cychwyn cyntaf. Diolch iddynt am eu tystiolaeth a'u harweiniad. Yr un yw'r diolch i'r holl swyddogion a'r aelodau

*parhad ar dudalen 2*

## Sulwyn: y cyfathrebwr a'r Cristion

Sioc a siom i'r genedl gyfan oedd clywed am farwolaeth y darlledwr adnabyddus Sulwyn Thomas, ac yntau'n 82 oed. Mae'r *Tyst* yn cydymdeimlo'n fawr â'i weddw Glenys a'r teulu i gyd. Er bod llawer yn ei gofio'n bennaf fel cyflwynydd y rhaglen radio hynod boblogaidd 'Stondin Sulwyn' roedd ei gyfraniad gwirfoddol i amryw fentrau ac elusennau yn wirioneddol aruthrol. Dyma berson wnaeth fyw ei ffydd a'i gred.





### Teyrnged ei weinidog, y Parchg Beti-Wyn James

Cymwynaswr a chyfaill triw i bawb ac yn ddyn o ffydd oedd Sulwyn Thomas – sef Sulwyn i bawb yn ei filltir sgwâr ac ar draws Cymru. Bu'n ddiacon ffyddlon ers yn ifanc iawn yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin lle cafodd ei fagu. Yn ogystal â chyfrannu'n gyhoeddus, roedd yn ymwneud â nifer o ddyletswyddau tawel yn y cefndir. Bu'n agor y capel, gosod rhifau'r emynau ar y bwrdd ac yn croesawu wrth ddrws y capel

*parhad ar dudalen 3*

## Nadolig Llawen

Hoffem ddymuno Nadolig llawen i holl ddarllenwyr *Y Tyst* a blwyddyn newydd llawn bendithion yn ystod 2026.

Diolch o galon i chi am eich ffyddlondeb ac am ddanfon cymaint o erthyglau, straeon difyr a sylweddol atom. Edrychwn ymlaen at gael cydweithio gyda chi dros waith yr Arglwydd Iesu Grist yma yng Nghymru, ar hyd a lled y byd gan gyhoeddi'r newyddion da.

# Dathliad capel Bethlehem Dyffryn Ceidrych – parhad

am eu brwdfrydedd a'u ffyddlondeb. Nhw, ynghyd â ffyddloniaid heddiw sydd wedi sicrhau parhad yr achos ym Methlehem.

### Cyfarfod Dathlu

Braf iawn oedd cael croesawu cymaint i'r oedfa gan gynnwys nifer o blant yr eglwys o bell ac agos a oedd wedi manteisio ar y cyfle i 'ddod adre'. Llywyddwyd yr oedfa gan Mrs Haulwen Booth gydag ieuenctid y capel yn gyfrifol am y rhannau arweiniol. Darllenwyd o broffwydoliaeth Eseia gan Jack Davies ac o Efengyl Mathew gan Rachel Harries gyda Gwawr Jones yn arwain mewn gweddi. Cafwyd dwy eitem gerddorol gan blant Ysgol Sul yr ofalaeth – 'Fy Fflam Fach i' a 'Pen-blwydd hapus i gapel Bethlehem'. Ruth Rees oedd wrth yr organ.

### Guto Talar Wen



Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Guto Prys ap Gwynfor. Un o blant Bethlehem yw Guto a braint oedd ei groesawu i'n plith. Yn adroddiad blynyddol y capel am 1974 dyma ddywedodd y diweddar Barchg Alwyn Williams:

> 'Bore Sul Medi'r 8fed cafodd yr Eglwys ym Methlehem brofiad cwbl newydd, fe'i galwyd i fod yn 'Dyst' i fachgen ieuanc yn cynnal ei Oedfa gyntaf, ac yntau a'i wyneb ar y weinidogaeth. Y bachgen addawol wrth gwrs yw Guto Prys Evans, Talar Wen. Ni allwn feddwl am Guto yn unman arall, ond yn y cyfeiriad yma yn rhywle, yn goleuo ac yn hyfforddi pobl a'u harwain at Grist. Na foed i ni bylu'r weledigaeth sydd ganddo, rhown gefnogaeth iddo a chyfle i Dduw ei ddefnyddio i'w bwrpas anfeidrol ei hun.'

### Y graig

Dros yr hanner can mlynedd ddiwethaf mae'r weledigaeth honno wedi blodeuo a dwyn ffrwyth ar ei chanfed. Yn bregethwr grymus, yn heddychwr i'r carn, yn athro, yn hanesydd, yn ysgolhaig, ac yn un ohonom ni. Yn ei anerchiad cyfeiriodd Guto at eiriau o broffwydoliaeth Eseia – 'Edrychwch ar y graig y'ch naddwyd ohoni.' Soniodd am ein cyndeidiau, yn weinidogion a ffyddloniaid yr achos yma ym Methlehem ac yn genedlaethol, rhai a frwydrodd yn erbyn llawer o anawsterau i sicrhau parhad y weinidogaeth Gristnogol i genedlaethau'r dyfodol. Ond, wrth bwysleisio pwysigrwydd y gorffennol cawsom ein hatgoffa o eiriau'r Bregeth ar y Mynydd o Efengyl Mathew – 'Chwi yw halen y ddaear' 'Chwi yw goleuni'r byd.' Geiriau Iesu Grist i'w ddisgyblion i'w trwytho a'u goleuo cyn eu danfon allan i'r byd. Yr union eiriau all ein goleuo ninnau a'n harwain yn y dyddiau cythryblus sydd ohoni ar hyn o bryd. Trwy oleuni'r Iesu fe all hwn fod yn fyd gwell, yn fyd mwy teg a chyfiawn.

Gobeithio i bawb dderbyn bendith o'r newydd wrth gydaddoli a chyd-ddathlu. Yn dilyn y cyfarfod, cafodd pawb wahoddiad i fynd i'r hen ysgoldy am ddishgled o de a lluniaeth ysgafn. Cyfle arall i fwynhau a hel atgofion yng nghwmni ein gilydd.

**Haulwen Booth**

# 'Clywch lu'r nef'

Bwriad tymor yr Adfent – 'y Dyfodiad' – sef y pedwar Sul sy'n arwain at y Nadolig, yw rhoi cyfle i bobl fyfyrio ar y gwahanol ffyrdd y mae Iesu Grist yn dod i'n byd. Ar y Sul cyntaf, y pwyslais yw ei eni'n faban ym Methlehem; a buom yn edrych wythnos yn ôl ar garol sionc y Ficer Prichard sy'n ein hannog i fynd 'i Fethlem bawb dan ganu'. Y pwyslais ar ail Sul yr Adfent yw geni Crist yn ysbrydol yng nghalon y credadun. A pha garol well i fyfyrio ar hynny na'r garol Saesneg boblogaidd, 'Hark! the herald angels sing'. Mae'r garol hon hefyd, wrth gwrs, yn hynod boblogaidd yn ei ffurf Gymraeg: 'Clywch lu'r nef yn seinio'n un, / Henffych eni Ceidwad dyn!'

Awdur y garol orfoleddus hon yw Charles Wesley – un o emynwyr mawr y Saesneg, ac un â chanddo gysylltiadau Cymreig cryf, am iddo briodi Sarah Gwynne o blasty'r Garth, ger Cilmeri yn sir Frycheiniog. Daeth Charles Wesley yn Gristion yn 1738, a chael yr adeg honno, meddai, gân newydd yn ei galon. Yn eithaf buan wedyn, lluniodd y garol hon yn 'emyn ar gyfer dydd Nadolig.'

### Ysbrydoliaeth


Ysbrydolwyd y garol gan yr hanes yn Efengyl Luc am yr angylion – sef 'llu'r nef' – yn torri allan i foliannu wrth iddynt gyhoeddi i'r bugeiliaid y 'newyddion da o lawenydd mawr' fod Ceidwad wedi ei eni ym Methlehem. Roedd dau reswm pam y torrodd yr angylion allan i ganu – a pham y canodd Charles Wesley yntau ar eu hôl, gan annog 'pob cenedl is y rhod' i floeddio'n llawen. Y rheswm cyntaf yw *pwy* oedd yr Un a aned ym Methlehem. Yn ei garol mae Charles Wesley yn pentyrru disgrifiad ar ben disgrifiad o'r Person rhyfeddol hwnnw. Ef yw 'Tad tragwyddoldeb', 'Duwdod yn y cnawd', 'Tywysog heddwch', 'Haul cyfiawnder'. A'r rheswm arall yw *pam* y daeth Iesu i'n byd. Daeth i fod yn 'Immanuel' – yn 'Dduw gyda ni' – i'n cymodi â Duw. Yn fwy na hynny, daeth i'n galluogi, trwy ffydd ynddo Ef, i ddod yn blant i Dduw. Neu, yng ngeiriau'r garol: 'Ganwyd Ef, O! ryfedd drefn, / Fel y genid ni drachefn.'

**E. Wyn James, Caerdydd**

('*Munud i Feddwl', BBC Radio Cymru, dydd Llun, 9 Rhagfyr 2024*)



# Sulwyn: y cyfathrebwr a'r Cristion – parhad



bob bore a nos Sul ers blynyddoedd lawer. Yn wir, ni fyddai byth yn mynd i ffwrdd dros y Sul, gan ddychwelyd o wyliau bob amser ar ddydd Sadwrn er mwyn agor y capel ar fore Sul.

### Cymorth mawr

Roedd yn plethu ei ddiddordeb a'i brofiad darlledu mewn i fywyd yr eglwys a bu'n gymorth mawr gyda'r weinidogaeth ddigidol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn ddoeth ei eiriau a phawb yn parchu ei farn. Ond yn fwy na dim roedd yn ffrind triw i bawb ac yn hynod o gefnogol i weinidogaeth yr eglwys. Mae'n anodd meddwl am gapel y Priordy heb Sulwyn.

### Teyrnged Rhian Evans

*Bu Rhian Evans, a fu'n ddall ers yn ifanc, yn ffrind oes i Sulwyn Thomas ac mae wedi gwerthfawrogi yn fawr ei waith yn darparu Llyfrau Llafar.*

Roedd Sulwyn a finne wedi 'nabod ein gilydd ers pan o'n i'n blant yn yr ysgol Sul. Fe ddaethon ein dau yn aelodau yng nghapel y Priordy ar yr un pryd. Mae e' wedi bod fel brawd i fi ac yn gefn i'r gwaith gyda Llyfrau Llafar ers y cyfarfod cyntaf yn 1976.

### Atgofion y newyddiadurwr Alun Lenny

Rown i wedi adnabod Sulwyn ers tua 55 mlynedd pan oedd e' a Glenys ymhlith y bobol ifanc brwdfrydig oedd yn rhedeg Aelwyd yr Urdd yng Nghaerfyrddin, a minnau yn yr ysgol ramadeg. Roedd e' eisoes yn adnabyddus fel gohebydd ar raglen newyddion *Y Dydd* ar HTV, ar ôl cael ei hyfforddi fel newyddiadurwr ar bapur dyddiol yr *Evening Post*. Ym 1977 symudodd i'r rhaglen *Heddiw* ar y BBC, cyn codi ei stondin enwog ar Radio Cymru yn llawn amser o 1982 tan 2002 – yn gyntaf o Abertawe, ac yna o Gaerfyrddin, y dref a fu'n gartref iddo ar hyd ei oes. Wedi hynny, bu'n gweithio ar raglenni fel *Ffermio*. Pan wnaeth Sulwyn droi cefn ar *Heddiw*, fe wnaeth y cyswllt personol barhau, gan mai fi gafodd ei swydd am gyfnod byr, cyn sefydlu S4C.

### Menter Fendithiol

Ond dewch nôl i ddechrau'r 1970au. Dyna pryd bu Sulwyn yn flaenllaw yn y fenter fendithiol i gleifion di-ri drwy sefydlu gwasanaeth radio yn Ysbyty Glangwili. Ar ddydd Nadolig 1972, fe aeth y sianel 'yn fyw' i'r cleifion a staff, gan ddarlledu sgyrsiau a chaneuon o stafell fach oedd fawr fwy na chwpwrdd – lle cefais i a sawl un arall gyfle i ddarlledu am y tro cyntaf. Dros hanner canrif yn ddiweddarach, roedd Sulwyn yn llywydd Radio Glangwili ac wedi dal ati i fynd â'i feicroffon allan i holi pobol mewn dathliadau Nadolig a Gŵyl Ddewi yng Nghaerfyrddin bron tan y diwedd.

### Tynnwr coes

Byddai Sulwyn wrth ei fodd yn tynnu coes. Pwy all anghofio amdano'n cythruddo'r genedl gyda'r stori am fynd â'r Eisteddfod Genedlaethol i America? Tric ffŵl Ebrill, wrth gwrs! Roedd e' hefyd yn hoffi ceir cyflym. Tua chanol y 1990 fe brynodd Subaru Impreza gwyn – car oedd wedi ennill sawl rali yn fyd-eang. Un tro, fe es i gyda Sulwyn yn y car yna o Gaerfyrddin i Gaerdydd. Teg dweud na wnaeth e newid lôn i basio'r un car arall ar y ffordd i fyny nac yn ôl, gan iddo yrru'r holl ffordd yn y lôn gyflym ar hyd yr M4 yn gwneud tua 90 milltir yr awr!

### Person gwylaidd

Roedd Stondin Sulwyn yn gyfrwng rhyngweithiol (*interactive*) flynyddoedd cyn bod sôn am gyfryngau cymdeithasol fel Facebook, X ac yn y blaen, gan iddi fod yn llwyfan lle'r oedd hi'n 'rhydd i bawb ei farn, ac i bob farn ei dafod.' Ar y rhaglen, roedd Sulwyn yn holwr ffraeth a bywiog, ond byth yn gas. Mewn gwirionedd, roedd yn berson gwylaidd a gostyngedig, nad oedd yn chwilio unrhyw glod am ei waith elusennol eithriadol gyda Radio Glangwili, Papur Llafar y Deillion, Plant Dewi a sawl achos da arall. Roedd ei anrhydeddu gyda'r Wisg Wen yn yr Orsedd yn gydnabyddiaeth hollol deilwng. O brofiad personol, gallaf dystio bod Sulwyn yn berson hynod garedig. Efallai mai am hynny y byddaf yn ei gofio yn bennaf, ac am byth.

# Wrth y llyw: neges Nadolig y Llywydd!

*A thithau, Bethlehem Effrata, er dy fod yn fechan ymhlith miloedd Jwda, eto ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywydd yn Israel; yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb*. (Micha 5:2)

Mae ein byd yn aflonydd. O'n cwmpas mae pob lliw a llun o aflonyddwch, yn wleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol, gwyddonol, diwydiannol. Does dim rhaid wrth lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ond mae angen Llywydd arnom! Mae angen Llywydd i gael gafael ar ein bywyd; Llywydd i sefyll ynghanol y celwyddau a'r rhagrith, y *backslapping* a'r *backstabbing*; Llywydd i sefyll ynghanol y gynau'n saethu a'r bomiau'n ffrwydro a galw'r cyfan oll i drefn. Mae angen Llywydd arnom, ti a minnau, i ddatod y clymau sydd yn ein caethiwo. Mae'r darn bychan hwn o broffwydoliaeth Micha yn ein hatgoffa fod 'na Lywydd i gael.

*Ffrind pechadur,*
*Dyma'r Llywydd ar y môr!*

Felly canodd Ann Griffiths yn y *Caniedydd*: 'Dyma'r Llywydd ar y môr!'



Fe ellid trafod a thrafod os yw *dyma ei beilot ar y môr* yn well, ond y gwir drafferth i mi yw bod yr ebychnod wedi ei ddileu. Yn y *Caniedydd* mae Ann yn mynnu ein bod yn canu 'Dyma'r Llywydd ar y môr!' (yr ebychnod; mae'r ebychnod yno i bwrpas!). Peilot? Llywydd? Dim ots gen i, ond mae ots – ots mawr – gen i fod yr ebychnod wedi mynd. Mae yna gysur, cadernid a chymorth i fyw yn 'Dyma'r Llywydd ar y môr!' Mae 'Dyma'r Llywydd ar y môr' yn llipa, dof: cystal cymorth ag ymbarél mewn corwynt.

Pan mae ffydd yn colli'i ebychnod mae'r eglwys yn mynd â'i phen i'w phlu. Mae'n rhaid wrth yr ebychnod. Â môr ein byw yn aflonydd, mae angen Llywydd arnom, a'i waith yw cydio yn ein gwarrau a'n gosod yn solet ar ein traed unwaith eto. Llywydd sydd angen i adfer iechyd i gymdeithas, hunan-barch i genedl a hyder i eglwys. Ie, *Dyma'r Llywydd ar y môr!!*

**Owain Llŷr Evans**

Yr Adran Gydenwadol

RHAGFYR 18 2025 RHIF 251/152

# Gweddïau Nadolig gan Gymorth Cristnogol




Dyma ddetholiad o weddïau o ddeunydd Nadolig Cymorth Cristnogol ar gyfer eleni. Gellir cael mynediad i'r holl adnoddau sydd ar gael ar eu gwefan.

### Ymatebion agoriadol
(yn seiliedig ar Eseia 9)

Canys bachgen a aned i ni.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Un sy'n cael ei alw'n Arweinydd Bendigedig,
Duw Cadarn, Tad Bythol, Tywysog Tangnefedd.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Mab a roddwyd i ni.
Bydd yn gyfiawn a theg.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Rydyn ni'n gweld ei wyneb yn ein cymydog.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

### Gweddi ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig
Tywysog Tangnefedd,
doedd gennyt ddim lle diogel i orffwys pan oeddet ti'n fabi.
Gweddïwn heddiw dros bob plentyn sy'n cael ei orfodi i ffoi rhag trais.
Rydyn ni'n dod â theuluoedd a chymunedau sy'n dioddef ansefydlogrwydd ac ofn ger dy fron.
Yn ystod y tymor hwn o ddisgwyliadau gobeithiol,
gweddïwn dros y rhai sydd ddim yn gwybod beth a ddaw yfory.
Heria ni, Arglwydd, i fyw yn ôl dy alwad i geisio byw mewn heddwch.
Rho derfyn ar yr holl wrthdaro a'n hysbrydoli i weithredu gyda chyfiawnder a chariad.
Amen.

### Gweddi ar gyfer gwasanaeth Nadolig – y geni
Dduw cariadus, wrth i ni ddod at ein gilydd i wrando ar stori genedigaeth Iesu Grist, dy Fab, diolchwn am lawenydd a chyffro'r Nadolig.
Gweddïwn dros rieni, gofalwyr a phlant ym mhobman,
yn enwedig, gweddïwn dros y rhai nad oes ganddynt le diogel i aros.
Gofynnwn i ti helpu'r plant hynny nad oes ganddynt,
fel y baban Iesu, wely na chrud heno.
Dangos i ni beth allwn ni ei wneud i newid ein byd,
fel bod pob plentyn yn rhydd i chwarae, gorffwys, tyfu a ffynnu.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu, Amen.

## ‘Tawel nos’

Pythefnos yn ôl, buom yn edrych ar garol Gymraeg o’r ail ganrif ar bymtheg, sef ‘Awn i Fethlem, bawb dan ganu’. Wythnos yn ôl, buom yn edrych ar garol Saesneg o’r ddeunawfed ganrif, sef ‘Hark! the herald angels sing’, neu, yn Gymraeg, ‘Clywch lu’r nef yn seinio’n un’.

Y tro hwn, symudwn ymlaen i’r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i gyfandir Ewrop, oherwydd yno, ar noswyl Nadolig 1818, mewn pentref bach o’r enw Oberndorf, ger Salzburg, y clywyd canu am y tro cyntaf garol sydd erbyn hyn yn un o rai enwoca’r byd. Y garol honno yw ‘Stille nacht’ – ‘Tawel nos’, carol a droswyd droeon i’r Gymraeg, gan Nantlais, T. H. Parry-Williams a Saunders Lewis ymhlith eraill.

Mae cysylltiad diddorol rhwng Cymru a phentref Oberndorf. Os ewch i Stryd y Popty yn Aberystwyth, fe welwch blac ar dŷ sy’n nodi mai yno yr oedd Leopold Kohr yn byw rhwng 1968 ac 1977. Bu ef am gyfnod yn ddarlithydd yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Roedd yn un o arloeswyr y ‘mudiad gwyrdd’ cyfoes. Credai’n angerddol fod y ‘bach yn brydferth’, ac nid yw’n syndod, felly, iddo gefnogi’n frwd y mudiad cenedlaethol Cymreig. Yn Oberndorf y ganed Leopold Kohr, yn 1909, ac ymhyfrydai yn y ffaith mai pentref bach di-nod oedd man geni un o garolau enwoca’r byd.

Un o’r pethau trawiadol am y garol yw’r awyrgylch tawel, heddychlon sy’n rhedeg trwyddi. Mae hynny’n fwy trawiadol fyth o gofio fod adeg ei chyfansoddi yn un helbulus iawn yn hanes ardal Salzburg, ac yn hanes Ewrop gyfan yn wir – yn gyfnod o ryfela a chyni a chynnwrf.

Adeg y Nadolig, dathlwn eni’r Hwn a alwodd y proffwyd Eseia yn ‘Dywysog tangnefedd’. Dyma’r Un, meddai’r angylion wrth y bugeiliaid, a aned fel y gall pobl gael heddwch â Duw. Dyma’r Un, adeg ei Atgyfodiad, a ddaeth at ei ddisgyblion, a hwythau mewn ofn a dychryn, a’u cyfarch â’r geiriau, ‘Tangnefedd i chwi’. Ac mae’r garol ‘Stille nacht’, ac amgylchiadau ei llunio, yn pwysleisio y gall Iesu ddod â thangnefedd inni yn y sefyllfaoedd mwyaf anodd a dyrys.

*E. Wyn James*
*Caerdydd*

(*‘Munud i Feddwl’, BBC Radio Cymru, dydd Llun, 16 Rhagfyr 2024*)

## Nadolig 2025

A ni’n frau, llawn amheuon – o weled
holl ryfeloedd creulon
ein hoes, boed i’r Ŵyl hon
roi heddwch gyda’n rhoddion.

*Huw Alun Roberts*



## Ffilm Nadolig Caersalem, Caernarfon

🎄✨ Beth mae’r Nadolig yn ei olygu i chi … go iawn? ✨🎄

Bwyd 🎄🍽️
Anrhegion 🎁
Traddodiadau 🎶

I lawer: teulu 🎶❤️
Ond i rai eraill, mae’r gair hwnnw’n dwyn dagrau …
atgofion, tensiynau, hiraeth, perthnasau cymhleth.

Yn y ffilm hon o Wasanaeth Carolau 2025 Caersalem, rydyn ni’n edrych yn onest ar stori’r Nadolig — nid fel stori berffaith ar gerdyn, ond fel stori o oleuni’n dod i deuluoedd go iawn.

🌟 Iesu — goleuni’r byd
🌑 Yn camu i mewn i dywyllwch
🏠 I gartrefi go iawn
❤️ I bobl sydd ddim â bywyd taclus a pherffaith

Os yw’r Nadolig yn gymhleth neu’n boenus i chi eleni — mae’r neges yma’n arbennig i chi.

👉 Gwyliwch. Rhannwch. A gadewch i’r goleuni ddisgleirio i mewn i’ch stori chi.

#Duw #Nadolig #Teulu #Caernarfon #Ffydd

I wylio’r ffilm, ewch i: https://www.facebook.com/reel/743190795476658

## Mab y Saer

Mor dyner ydyw’r hanes
am Iesu yn ein plith,
yn gwasgar peraroglau
a cherdded yn y gwlith;
mae eto’n gwneuthur gwyrthiau
ac ateb gweddi daer;
does hafal i bechadur
fel haeddiant Mab y Saer.

* * *

Cofia dy Greawdwr,
yr hwn a’th luniodd di;
cofia dy Bryniawdwr
a’i waith ar Galfarî –
Iesu, ddaeth yn isel
at breseb Bethlem dref;
byd a bydoedd anwel
sy’n plygu iddo ef.

*R. Tegid Jones*
*Rhosllannerchrugog*

## Ildio i’r Nadolig

Beth bynnag arall yw’r Nadolig inni, un peth nad oes modd ei wadu yw mai gwreiddiau crefyddol sydd i’r ŵyl. Dyna pam mae pobol sydd yn llwyddo i gadw’n gwbl glir o gapel neu eglwys weddill y flwyddyn yn dewis troi i mewn rywsut, rywbryd ym mis Rhagfyr.

Mae’r tymor hwn yn cosi hen ddyheadau, yn deffro’r gwerthoedd sydd yn hawdd iawn eu hanwybyddu weddill y flwyddyn, ond sydd yn mynnu eu lle yn nhymor y Nadolig. Mae’r Nadolig yn amlygu darnau chwâl ein bywyd, ac mae hiraeth yn codi o’r herwydd am gael y darnau eto ynghyd.

Mae yna ystod eang o resymau pam mae pobol yn gollwng gafael ar ochr ysbrydol eu bywyd. Rhesymau gonest, rhesymau esgusodlyd, rhesymau gwael! Clywais stori hyfryd gan un o offeiriaid y Sblot yn ystod yr wythnos aeth heibio, stori gafodd yntau gan un o’i bobol. Gofynnodd hon wrth ei gŵr pam nad oedd e bellach yn dod gyda hi i’r offeren. Atebodd yntau nad oedd am fynychu’r offeren ragor gan nad oedd yn hoffi’r offeiriad newydd. Daeth ei hymateb fel chwip, “Dwyt ti ddim yn hoffi’r dyn tu ôl i’r bar yn y Royal Oak, ond rwyt ti dal i fynd yno am wisgi pan wyt ti eisiau un!” Roedd y gweinidog o’r Mynydd Bychan a’r offeiriad o’r Sblot yn gwbl gytûn fod y ddynes honno yn ddiwinydd o fri!

Dyma awgrym bach: beth bynnag yw eich dealltwriaeth o’r ffydd, beth bynnag yw eich syniad am bobol ffydd, ildiwch i dynfa’r ŵyl. Pam lai? Ildiwch i dynfa’r Nadolig, a throwch i mewn i’ch addoldy lleol – y tŷ cwrdd agosa’… A phwy a ŵyr? Efallai y daw rhai o’r darnau ynghyd.

*Owain Llŷr Evans*
(Allan o *Yng Ngolwg Ffydd*)

# Llewyrch achos Llanfaches

Hyfrydwch bendithiol iawn oedd ymuno â chynrychiolwyr cyfeillgar iawn o brif enwadau Cristnogol Cymru yng nghapel hanesyddol y Tabernacl, Llanfaches, ddydd Sadwrn, 6 Rhagfyr.

Cynhaliwyd yr oedfa olaf yn y capel hynafol ddydd Sul, 7 Rhagfyr 2025, gyda gwasanaeth o ganu carolau oedd wedi eu dewis gan yr wyth aelod sy'n weddill yn y capel erbyn hyn. Cefais wybod bod y capel bron yn llawn ar y bore Sul, a nifer sylweddol o'r cyn-aelodau wedi manteisio ar y cyfle olaf hwn i gydaddoli.

Cychwynnodd yr achos ymneilltuol yn Llanfaches ym mis Tachwedd 1639, ar ôl i reithor y plwyf, y Parchedig William Wroth, gael ei ddiswyddo o'i fywoliaeth yno gan yr awdurdodau Anglicanaidd yn 1638. Fel sy'n hysbys i bron pawb ohonoch, dwi'n siŵr, yr achos yn Llanfaches oedd y gynulleidfa ymneilltuol cyntaf yng Nghymru.

Dydd Sadwrn, 6 Rhagfyr, oedd y cyfle olaf i ni ymgynnull yn Llanfaches, gyda chaniatâd a chefnogaeth yr wyth aelod oedrannus sydd yno erbyn hyn.

Er bod y rhybudd am y diwrnod o goffâd a diolchgarwch yn fyr ac ynghanol prysurdeb masnachol y Nadolig, cawsom gwmni o bymtheg ohonom o gylch bwrdd crwn delfrydol wrth i ni wynebu a chyfarch ein gilydd mewn trafodaeth yn Neuadd Goffa William Wroth, sydd ynghlwm wrth y capel. Penderfynwyd mai braf iawn a manteisiol oedd i ni aros yng nghwmni ein gilydd fel cyfeillion ar gyfer trafodaethau'r bore yn ddwyieithog.

Gwahoddwyd pob un oedd yn bresennol i'w gyflwyno'i hun a sôn am ei gefndir a'i berthynas â Llanfaches. Roedd yn drawiadol iawn nad oedd yr aelodau sy'n weddill yn ymdeimlo â gormodedd o dristwch, oherwydd eu bod mor wirioneddol ddiolchgar am y budd a'r bendithion roeddent wedi eu cael o berthyn i'r capel dros nifer sylweddol o flynyddoedd. Roedd Barbara, un o'r cyd-ysgrifenyddion a'r organyddes, wedi bod yn aelod yno am tua 70 mlynedd.

Rhywbeth arall ddaeth yn amlwg oedd fod y rhan fwyaf oedd yn bresennol wedi newid enwad eu magwraeth, am resymau gwahanol, yn ystod eu pererindod.

Doedd dim syndod i mi fod sawl un yno wedi mynegi ei ddyled a'i ddiolch i'r diweddar Barchedig Shem Morgan am ei arweiniad a'i ddylanwad arnynt pan oedd yn fugail yno.



Yn eistedd o'r chwith i'r dde: Swyddogion y Tabernacl, Llanfaches: Mike Cornick, Barbara Jones (Cyd-ysgrifenyddion), Eirlys Cawdrey (Trysorydd)
Yn y pulpud o'r chwith i'r dde: Parch. Owain Llŷr Evans (Gweinidog capel Minny St, Caerdydd); David a Jinny Heywood (aelodau yn Llanfaches); Parch. Gethin Rhys (cyn-swyddog gyda Cytûn); Helen Williams (Eglwys Sant Edeyrn, Caerdydd); Siân Evans (aelod yng nghapel y Crwys, Caerdydd); Parch. Gwilym Wyn Roberts (aelod yng nghapel Minny St, Caerdydd)
Eraill oedd yn bresennol, ond heb fod yn y llun: Luned ac Owen Rock (aelodau yn y Tabernacl, Caerdydd); Parch. Lyndon Harrison (cyn-ficer Cil-y-coed) a'i wraig, Cynthia; Parch. Ddr Geraint Tudur (a dynnodd y llun)

Hyfryd iawn oedd cael cwmni'r Parchedig Lyndon Harrison a'i wraig yn y bore. Er iddo fod yn ficer yng Nghil-y-coed (Caldicot) cyn ymddeol, doedd o erioed wedi cael y cyfle i ymweld â'r capel. Roedd naws ecwmenaidd naturiol a chynnes yn ein mysg yn ystod y diwrnod hanesyddol hwn. Cafwyd ymateb hynod ddiddorol gan bob un oedd yn bresennol mewn ffordd hynaws ond dwys, ac roeddem oll wedi ein hysbrydoli wrth i ni glywed am gefndiroedd a gyrfaoedd amrywiol.

Syrpréis hyfryd iawn ac annisgwyl oedd cael cwmni'r Parchedig Ddr Geraint Tudur o Fangor. Efallai i rai ohonoch gofio bod Geraint wedi traddodi ei ddarlith am Lanfaches a gweinidogaeth nodedig y Parchedig William Wroth 'nôl yn 1989 (amser dathlu 350 mlynedd sefydlu'r achos) yn y prynhawn a bod ei dad, y Parchedig Ddr R. Tudur Jones, wedi pregethu yn oedfa'r hwyr.

O gylch y bwrdd ar y bore Sadwrn, gofynnais i Geraint a fyddai'n fodlon crynhoi hanes yr achos yn Llanfaches a swyddogaeth y Parchedig William Wroth. Llwyddodd Geraint i wneud hynny, yn gryno ac yn ddwyieithog.

Ar ôl y bwffe blasus iawn, cawsom oedfa fer yn y capel a chanwyd dau bennill o eiddo Shem Morgan:


Gwrando, Arglwydd, o'th gynteddau
  ar bechadur gwael ei lun,
dwêd dy fod o hyd yn maddau
  pechod mawr yr euog ddyn.
Dangos imi'r groesbren arw
  hoelwyd arni f'Arglwydd cu,
nes creu awydd yn fy nghalon
  i glodfori 'ngheidwad i.

Arwain fi, O Arglwydd tirion,
  o'm crwydriadau pell yn ôl,
nes gorchfygu'r croesau mawrion
  a diddymu 'mhleser ffôl;
gad im rodio llwybrau bywyd
  beunydd yn dy gwmni di,
fel yr caf o'r diwedd ddyfod
  atat Ti, i'r nefoedd fry.

*Gwilym Wyn Roberts*

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 10 – Ymson Debora

Debora ydw i, llawforwyn yr Arglwydd a barnwr y bobl. Mae amryw wedi dod ataf yn chwilio am ddoethineb ac i glywed llais Duw. A phan fo Duw yn siarad, bydd hyd yn oed y galon fwyaf ystyfnig yn teimlo'r ddaear yn simsanu.

Bu llaw Jabin, brenin Canaan, yn drwm arnom am ugain mlynedd. Bu Sisera'r cadfridog hefyd yn deyrn. Clywais y bobl yn ochneidio, ond rhaid oedd aros yn amyneddgar, hyd nes ei bod yn amser y waredigaeth.

Yna, un diwrnod sibrydodd yr Ysbryd wrthyf: "Debora, galw am Barac, fab Abinoam." A gelwais arno i ddod ataf yr holl ffordd o Cedes, Nafftali. Edrychais i fyw ei lygaid a gwelais ei fod yntau wedi dioddef creulondeb Sisera. Dangosai cannwyll ei lygaid wrthyf ei fod yn dyheu am ryddid, ond eto'n llawn ofn. Dywedais wrtho am gynnull deng mil o ddynion o Nafftali a Sabulon, a mynd i Fynydd Tabor. "Gad ti'r gweddill i mi," meddwn wrtho, "fe ddof fi â Sisera atat."

Doedd o ddim yn siŵr a bu'n fud am eiliadau hir. Wedi pendroni, fe ddywedodd yn dawel: "Os doi di gyda mi, fe af. Ond os na ddoi di, af i ddim!" Dyna beth mawr: un o'r dynion dewraf yn cyfaddef ei fod f'angen i. Deallwn ei bryder, ond gwyddwn y byddai fy nghryfder yn ei gymell yn ei flaen. Doedd gen i ddim cleddyf yn fy llaw na byddin y tu ôl imi, ond gwyddwn yn fy nghalon fod yr Arglwydd wrth f'ochr. Cytunais i fynd gyda ef, ond rhoddais wybod iddo mai llaw menyw fyddai'n ennill y dydd i'r bobl.

Aethom ein dau i Fynydd Tabor ac aros. Daeth cerbydau Sisera a'u dannedd o ddur, a'r anifeiliaid mawr yn ysgyrnygu o'u blaenau. Teimlais newid yn yr awel; roedd rhywbeth ar droed. Gwelais ddŵr nant Cison yn codi a dywedais, â'm llais yn gadarn, "Cod dithau, Barac; dyma ddydd yr Arglwydd! Oni weli di Ef yn cerdded o'th flaen?"

Dilynai'r deng mil o ddynion yn union ar ei ôl, fel llanw'r môr mawr. Roedden nhw wedi'u hatgyfnerthu. Disgyn i'r llaid fu tranc y cerbydau dur i gyd a chwympodd y milwyr, fesul un, a chael eu hysgubo ymaith gan y dŵr. Dihangodd Sisera ar droed fel llwfrgi. Aeth i mewn i babell cyfeillion iddo a chael ei groesawu gan Jael, gwraig Heber. Meddyliodd ei fod yn saff yno. Rhoddodd Jael laeth enwyn iddo i'w yfed, er iddo ofyn am ddŵr. Taenodd gwrlid cynnes drosto a sicrhau ei fod yn gyfforddus ac yn siŵr o gysgu. Cytunodd i sefyll yn nrws y babell, ond gwyddai beth oedd raid iddi ei wneud. Aeth i nôl un o'r picffyrch oedd yn dal y babell yn ei lle, a chyda honno yn un llaw a morthwyl yn y llaw arall, anelodd rhwng ei glust a'i dalcen (sef ei arlais). Trywanodd Sisera nes bod y bicfforch wedi mynd drwyddo. Crymodd ef o'i blaen, cyn disgyn yn gelain. Daeth Barac ymhen hir a hwyr a dangosodd Jael iddo yr hyn a wnaethai.

Cenais fawl i'r Arglwydd am iddo f'arwain mewn doethineb. Do, deffroais ar alwad yr Iôr a gweithredu yn ôl ei gyfarwyddyd. Boed imi fod yn anogaeth i chithau, fel y rhai sy'n ei garu Ef, i ddisgleirio'n llachar fel haul ganol dydd.

**Holi**

- Sut mae parodrwydd Debora i wrando ar Dduw yn ein herio i ddeisyfu ei gyfarwyddyd wrth wneud penderfyniadau heddiw a gweithredu ar y penderfyniadau?
- Gwelwn Debora yn rhoi cefnogaeth i Barac yn hytrach na gweithredu ar ei phen ei hun. Beth sydd gan y bartneriaeth a'r cydweithio yn y stori i'w ddweud wrthon ni am rannu arweinyddiaeth a chefnogi ein gilydd yng ngweinidogaeth yr holl saint?
- Roedd Debora yn fenyw gref, yn enwedig yn ei dydd. Sut all ei hesiampl hi ddylanwadu ar ein hagweddau ni o ran pwy ddylai arwain neu beidio? Ydy Duw yn defnyddio pobl amrywiol, ac efallai rai sy'n cael eu hamddifadu o gyfleon fel arfer i arwain?
- Cododd Debora, Barac a Jael i wynebu'r perygl yn hyderus. Ym mha sefyllfaoedd heddiw mae Duw'n galw'r eglwys, neu chi'n bersonol, i gamu ymlaen gyda dewrder?


**Gweddi**

Cymorth ni i glywed a dilyn dy gyfarwyddyd. Cryfha ni, fel y gallwn fod yn hyderus yn ein camre pan fo'r llwybr yn aneglur. Cymorth ni i gefnogi ein gilydd ac i wneud popeth â chymysgedd iach o wyleidd-dra a hyfdra. Cryfha ein hymddiriedaeth ynot Ti ac yn y rhai rwyt wedi'u galw i arwain. Cymorth ni i gydweithio er hyrwyddo dy deyrnas a lledaenu dy gariad. Amen.

*Siân Meinir*

## *Trysorau'r Nadolig (gol. Jo Heyde)*

Dewch i ymgolli yn hud y Nadolig. Yn y flodeugerdd hon mae ugain o feirdd yn rhannu eu hatgofion o'r Ŵyl ac mae gwaith celf hudolus Karl James Mountford yn coroni'r cyfan. Dyma gist gyforiog y byddwch yn ei hagor droeon i fwynhau'r trysorau arbennig sydd ynddi. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau Barddas




S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 21 Rhagfyr, am 7:00yh – Gŵyl y Geni**

Nia Roberts sy'n arwain dathliadau'r Nadolig o Eglwys Sant Awstin, Penarth. Ymhlith y gwesteion mae'r unawdwyr Rhodri Prys Jones, Lili Mohammad a Sian Meinir, a chawn berfformiadau gan Gôr Merched Plastaf a Chôr Tadau Trisant. Mae'r carolau cynulleidfaol o dan arweiniad Eilir Owen Griffiths.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 21 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siôn Brynach

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 21 Rhagfyr, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Thomas Ellis Williams, Caerdydd

# Oedfa Nadolig *Cenn@d*

**Y Magnificat – Llawenhau a Gorfoleddu yn Nuw**

**Gweddi**
Arglwydd, diolch am gyfle newydd i ymdawelu a throi atat ti. Diolch am gyfle i fynegi ein moliant a'n diolch i Ti, ein creawdwr. Yn ein hamser o fawl a gweddi heddiw, gofynnwn i'th Ysbryd Glân agor ein meddyliau a'n calonnau wrth i ni unwaith eto dy roi di yn y canol. Down i'th foli, Arglwydd Iesu; derbyn ni. Amen.

Thema ein hoedfa fydd llawenydd. Ydi llawenydd yn rhywbeth sy'n dod yn rhwydd i chi? Neu fyddwch chi ar adegau yn ei chael yn anodd meddwl am fod yn llawen? Wrth i ni feddwl am ein taith ffydd a'n perthynas â'r Duw byw yn Iesu Grist, beth mae llawenydd yn ei olygu? Ac ydi hi'n bosib profi llawenydd yn ein ffydd pan fydd bywyd o'n cwmpas yn anodd a heriol? Cawn gyfle i fyfyrio ar hyn yn ystod ein hoedfa.

**Emyn 421**: 'Llawenydd a gewch yn Iesu'

**Canhwyllau Adfent**
Ydych chi wedi bod yn nodi'r Adfent mewn ffordd arbennig? Mae rhai yn hoffi calendr adfent – y rhai efo siocled – ia, wrth gwrs! Ond hefyd, mae'n bosib cael rhai sydd efo adnod ar gyfer y dydd. Neu efallai fod ganddoch chi gannwyll adfent ac y byddwch yn neilltuo amser tawel wrth i'r gannwyll losgi o un rhif i'r llall. Mewn eglwysi a rhai capeli defnyddir torch adfent yn ystod y cyfnod hwn. Ceir thema wahanol i'r canhwyllau adfent: gobaith, tangnefedd, gorfoledd a chariad. Heddiw, gadewch i ni ganolbwyntio ar y drydedd gannwyll; llawenydd neu orfoledd. Tra mae hanner cyntaf tymor yr adfent yn gyfnod o fyfyrio ac edifarhau, wrth i ni groesi i ail hanner yr adfent ac wrth i'r Nadolig agosáu, cawn gyfle i ymgolli yn rhyfeddod a gorfoledd Gŵyl y Geni sydd ar y gorwel.

**Gweddi**
Diolch i ti, Arglwydd, am dymor yr adfent – tymor o ddisgwyl a myfyrio ar ystyr dy ddyfodiad i'r byd. Helpa ni i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud lle i ti yn ein calonnau yn ystod y tymor er mwyn i ni brofi ystyr ddyfnach Gŵyl y Nadolig pan ddaw. A'r byd fel petai'n prysuro o'n cwmpas, arwain ni i arafu ac aros ynot Ti. A rho i ni olwg newydd ar yr hyn mae'n ei olygu i ddisgwyl wrth yr Arglwydd. Fel y dywedodd y Salmydd: disgwyl wrth yr Arglwydd. Bydd gryf a gwrol dy galon, a disgwyl wrth yr Arglwydd. Amen.

**Moli**
**Darlleniadau: Salm 100; Philipiaid 4: 4–7**

Un o'r salmau mwyaf cyfarwydd yw Salm 100; 'Emyn o fawl a Salm o ddiolch', yn ôl beibl.net. Mae'r salm yn dechrau â'r geiriau: 'Gwaeddwch yn uchel i'r ARGLWYDD, holl bobl y byd! Addolwch yr ARGLWYDD yn llawen; a dod o'i flaen gan ddathlu!' Dyna orfoledd, dyna lawenydd. Y neges yw: dewch i addoli, dewch i ddathlu. Dewch i addoli Duw yn llawen, addolwch ei fawredd a'i gariad a'i ffyddlondeb. Ac i ni, yng nghyfnod yr adfent, gallem ychwanegu: paratowch eich hunain i groesawu Iesu, ein Gwaredwr. Ydyn ni'n barod yn y galon i ddechrau amgyffred a deall mawredd y Nadolig o'r newydd yr adfent hwn? Ydyn ni'n llwyddo i sicrhau mai cariad a llawenydd sy'n cael y lle pennaf yn ein calonnau er mwyn gallu cael gwir orfoleddu yn Nuw?

Os byddwch am droi at ran o'r Beibl sy'n ein hannog i lawenhau a gwenu, yna mae Llythyr Paul at y Philipiaid yn lle da i gychwyn. Cawn ein hannog gan Paul i fod yn llawen bob amser. A chofiwn fod llawenydd yn ddyfnach na hapusrwydd. Mae'n amhosib bod yn hapus drwy'r amser, ond nid dyna'r neges yma, ac nid dyna neges yr Efengyl. Pwysleisia Paul yn y llythyr mai'r rheswm dros fod yn llawen yw am ein bod yn perthyn i'r Arglwydd.

**Magnificat**
Darlleniad sy'n cael ei gysylltu â Sul Gorfoledd ydy'r Magnificat – emyn mawl Mair. Dyma'r gân y mae Mair yn ei chanu ar ôl ymweliad yr angel yn dweud ei bod yn mynd i fod yn fam i fab Duw. Er mwyn mynd dan groen y geiriau, mae'n rhaid aros a myfyrio. Felly, gadewch i ni aros efo Mair am ychydig. Wrth i ni ddarllen yr adnodau, gadewch i'r geiriau ganu yn eich calon a'ch meddwl chi fel y bu iddynt ganu yn ei chalon a'i meddwl hi.

**Darlleniad: Luc 1:46–55**

**Emyn 433**: 'O f'enaid, cân, mawrha yr Arglwydd Dduw'

Mae llawenydd Mair yn deillio o agosrwydd Duw ati, ond nid ati hi yn unig. Mae'n llawenhau am fod Duw wedi dewis closio at rai tebyg iddi, pobl sydd yn 'neb', y rhai sy'n newynog a'r rhai sy'n dlawd. Trugaredd Duw yw ffynhonnell eu llawenydd. Mae cymaint o bobl wedi darlunio Duw fel un sydd yn farnwr caled, yn cadw cyfri o fethiannau pawb; mae rhai wedi ei ddarlunio fel yr un o blaid y cyfoethog a'r grymus ac eraill yn ei ddarlunio fel Duw y bobl ddylanwadol a phwysig. Ond mae Duw wedi dewis Mair, a thrwyddi bobl debyg iddi, a dweud mai Duw y neb, y tlawd, y di-rym a'r gorthrymedig ydi o – Duw sy'n closio at bobl yn drugarog a chydag anwyldeb. Mae hynny yn sicr o roi llawenydd.

**Gwasanaethu**
Diwedd hanes ymweliad yr angel â Mair ydi'r Magnificat mewn gwirionedd. Tydi dechrau'r hanes ddim cweit mor gadarnhaol. Meddai Luc: 'Ond gwnaeth yr angel i Mair deimlo'n ddryslyd iawn. Doedd hi ddim yn deall o gwbl beth roedd yn ei feddwl. Felly dyma'r angel yn dweud wrthi, "Paid bod ofn, Mair. Mae Duw wedi dewis dy fendithio di'n fawr."'

Erbyn diwedd yr ymweliad, fodd bynnag, mae meddwl Mair wedi ei dawelu: "Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyt wedi'i ddweud ddod yn wir." Yna, ar ôl cyfarfod â'i chyfnither Elisabeth, mae Mair yn canu ei chân o fawl.

Rydyn ni wedi ystyried beth mae'n ei olygu i lawenhau a gorfoleddu fel y gwnaeth Mair. Ond mae Mair hefyd yn ymateb i ymweliad yr angel drwy ddatgan ei hawydd i wasanaethu Duw. Mae hon yn neges o her i ni heddiw. Faint o bwyslais rown ni ar wasanaethu yn ein bywydau o ddydd i ddydd? A beth am wasanaethu Duw? Nid peth hawdd ydi byw bywyd o wasanaeth i Dduw ac eraill. Mae rhywbeth ynom i gyd sydd am roi'r hunan gyntaf. Ond neges greiddiol efengyl Crist yw na allwn ni wneud hyn os ydym am ei ddilyn yn ffyddlon. Boed i ni dderbyn anogaeth drwy esiampl y Fair ifanc i fod yn awyddus i wasanaethu ein Harglwydd Dduw bob amser.

Yr esiampl bennaf i ni fel Cristnogion o wasanaeth, wrth gwrs, ydi Iesu. Mae'n amhosib dathlu'r Nadolig heb fod gennym lygaid tua'r Pasg – ac mae ein stôr o garolau plygain yn amlygu hyn i ni. Os cewch gyfle i fynychu'r plygain eleni, gwrandewch yn ofalus ar y geiriau yn ogystal â'r alawon cyfoethog, ac fe sylwch fod pob un yn cyfeirio at y Geni a'r Groes. Daeth Crist i'n byd i ddangos Duw i ni, i fod efo ni, ac i fynegi'r cariad dyfnaf ar Galfaria. Ond, yn union fel nad ansicrwydd ac ofn Mair oedd diwedd

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## *Oedfa Nadolig Cenn@d*

*(parhad o dudalen 8)*

ei chân hi, nid y groes yw diwedd ein profiad o Grist. Llawenydd a gorfoledd y Pasg sy'n ein codi ar ein traed a'n llenwi â llawenydd a gobaith. Yr un llawenydd ag a lanwodd galon Mair ar ôl ymweliad yr angel. Ac felly, gadewch i ni yr adfent hwn edrych ar Mair o'r newydd a myfyrio ar ei Magnificat. Gan obeithio y teimlwn ni yr un llawenydd a gorfoledd o gael croesawu Crist i'n byd ac y cawn ein hysgogi o'r newydd i wasanaethu yn ei enw.

**Gweddi**

Tyrd, Iesu, fel yr addawodd y proffwyd.
Tyrd, Iesu, llanw ni â llawenydd.
Tyrd, fel y bydd yr anialwch yn gorfoleddu a blodau yn blaguro yn y diffeithwch.
Tyrd, Iesu, fel y bydd y rhai sy'n teimlo'n fregus a thrist yn medru gweiddi mewn llawenydd, yn ffynnu ac yn llawenhau ynot ti.
Amen. (gweddi o *Roots*)

**Emyn 441**: 'Wele, cawsom y Meseia'

*Mererid Mair*

## Plygeiniau 2025/26

Mae'n dymor y plygeiniau unwaith eto, ac mae rhestr gynhwysfawr o'r rhai sydd i'w cynnal yn ystod tymor 2025/26 bellach ar gael ar y wefan: www.plygain.org.

Hyd y gwelwn, bydd pedwar plygain newydd eleni:

- Llanrhaeadr-ym-Mochnant (Eglwys Sant Dogfan), ar 4 Ionawr (hen blygain sy'n atgyfodi eleni ar ôl "dirwyn i ben" dair blynedd yn ôl)
- Llanfachreth (ger Dolgellau, Eglwys Machreth Sant) ar 11 Ionawr (pnawn)
- Llandudoch (Eglwys Sant Tomos) ar 10 Ionawr
- Dinbych (Capel y Fron) ar 19 Ionawr.

Pob hwyl i'r plygeiniau newydd – ac i bob un o'r hen rai hefyd!






*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr, am 1.00yp – Gŵyl y Geni (ailddarllediad)**
Nia Roberts sy'n arwain dathliadau'r Nadolig o Eglwys Sant Awstin, Penarth. Ymhlith y gwesteion mae'r unawdwyr Rhodri Prys Jones, Lili Mohammad a Sian Meinir, a chawn berfformiadau gan Gôr Merched Plastaf a Chôr Tadau Trisant. Mae'r carolau cynulleidfaol o dan arweiniad Eilir Owen Griffiths.

**Oedfa'r Dolig**
***Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr, am 5:30yb a 12:00yp***
Oedfa dan arweiniad Gareth Ioan ac aelodau eglwysi Blaen-y-coed a Bryn Iwan, Sir Gaerfyrddin. Bydd yn dadansoddi pam mae straeon y geni yn cynnwys bugeiliaid, angylion a doethion, ac yn holi am le, llawenydd a'r her i bawb ohonom yn y stori.

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 28 Rhagfyr, am 7:45yh – Uchafbwyntiau**
Rhodri Gomer sy'n rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres. Bydd teulu Gwynfor Evans yn dathlu ei gyfraniad unigryw, a chlywn gan Vex Vaughan am gefnogaeth elusen Gisda i'r ifanc. A bydd yna berfformiad disglair gan Gôr Glanaethwy.

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 28 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**
Plygain Penrhyn-coch yng nghwmni Ceris Gruffudd

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 28 Rhagfyr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Sara Roberts, Bethesda

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Oedfa ddathlu ar yr Allt-wen

*Dyma ail ran yr adroddiad am ddathlu 60 mlynedd gweinidogaeth y Parchg Gareth Morgan Jones.*



Bu Wrecsam yn fangre pwysig i ni'r Cymry yn ystod yr haf, ac felly bu i Mr Jones ar ddau achlysur. Yn Wrecsam yn 1993 traddododd y bregeth ar y testun 'Dyffryn Achor yn ddrws gobaith', yn oedfa urddo'r Parchg John Gwilym Jones yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr. Yn 2005 cafodd yntau'r anrhydedd fwyaf y gellid ei dderbyn gan yr enwad, sef Llywydd Undeb yr Annibynwyr a chofiaf ei anerchiad yn Wrecsam ar y testun 'Colofn a Sylfaen'. Yn 2011 fe'i hanrhydeddwyd yn Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru am dair blynedd a mynychodd ddau achlysur bythgofiadwy, sef priodas Tywysog Cymru a Kate Middleton, ac oedfa gysegru'r Gwir Barchedig Justin Welby yn Archesgob Caergaint.

### Mrs. Jones

Nid yn unig mae Mr Jones wedi'i drwytho yn yr ysgrythurau a'n hemynau ond mae hefyd yn ddarllenwr brwd ehangach, a gwelid ôl ei ddeallusrwydd yn ei bregethau grymus ac amserol. Hefyd, nid un person yn unig sydd i dderbyn y sylw prynhawn 'ma. Mae 'na hen ymadrodd sy'n dweud 'Tu ôl i ddyn llwyddiannus mae menyw', a diolchwn i Mrs Jill Jones am ei chefnogaeth amhrisiadwy ar hyd y daith. Mae'r ddau ohonynt yn mwynhau cwmni eu plant Endaf, Siân a Rhian heb anghofio Stuart eu mab yng nghyfraith, a'u hwyresau Ffion Mair ac Erin Medi.

### Gwerthfawrogiad

Diolch i'r Arglwydd am ei gyfraniad mawr i dystiolaeth Iesu Grist, ac am roddi iddo'r iechyd, nerth a gras i ddathlu trigain mlynedd yn y weinidogaeth a chwarter canrif gyda ni ar yr Allt-wen lle mae'n bregethwr a bugail brwd ardderchog. Llongyfarchiadau gwresog iddo. Yn olaf, ategaf hyn oll gyda'r adnod: 'Da was, da a ffyddlon.'

Yna, darllenodd y Prifardd Robat Powel yr englynion a luniodd i Mr Jones ar gais aelodau'r Allt-wen, a darllenodd Mel Morgans, ffrind mynwesol i'r teulu ei benillion i Mr Jones. Diolchodd Mr Jones i bawb oedd wedi cymryd rhan yn yr oedfa fendigedig, ac i'r sawl yn yr holl eglwysi oedd wedi ei gefnogi ar hyd ei weinidogaeth. Traddodwyd y fendith gan y Parchg Gary Green. Cyflwynwyd rhodd o'r englynion wedi'u fframio i Mr Jones fel gwerthfawrogiad o'i weinidogaeth gyda ni ar yr Allt-wen, a hefyd planhigyn tegeirian i Mrs Jones. Mwynhaodd pawb y lluniaeth blasus a baratowyd gan chwiorydd y capel, a'r cyfle i rannu hanesion gyda Mr Jones.

### 25 mlynedd y Parchg Gareth Morgan Jones yng Nghapel yr Allt-wen

Fe fu'r chwarter canrif hwn – a'i waddol
Yn wledd nas anghofiwn,
Un oedfa fawr; daw, fe wn,
Yn oes aur a drysorwn.

Rhôi Gareth inni'r geiriau – i'n herio
O dir y Gwynfydau,
Ein codi trwy'i weddïau,
Cynnal braich y gwamal brau.

Diolch yw'n pwrpas diwyd, – llawenydd
Sy'n llanw ein pulpud ;
Dathliad sy! Rhaid bachu'r byd
I lwyfan ein mawl hefyd.

Ac yma, carfan mor gymen – a geir,
A Gareth yn gapten
Digymar, yn cydchware'n
Llu Duw ar faes yr Allt-wen!

Robat Powell

### Y Parchg Gareth Morgan Jones

Ddiwrnod fel heddiw diolchwn i'r byw,
Am ddawn dy bregethu, a'n harwain at Dduw.

Er pwysiced y gorlan, bugeiliaist rhai claf,
Yng nghapel yr Allt-wen a draw'n Maes-yr-haf.

Er cryfed dy gred a beth fyddet yn dweud
Diolchwn ni heddiw am yr hyn wnes di wneud.

Er llafar dy obaith, dy gariad a'th ffydd,
Roedd dy weinidogaethu yn llanw pob dydd.

Diolchwn am feddwl a dyfnder dy ras,
Dy gymeriad tu fewn, a'th wên tu fas.

Mae'n dda gallu dweud troaist 'run dyn i ffwrdd
O'th gartre yn Sycharth na byth o'r un cwrdd.

A buaist oleuni mewn sawl tywyll nos,
I ddal fi bechadur rhag llithro i'r ffos.

Ie dyna wnawn heddiw dy longyfarch di,
Am wasanaeth clodwiw i bechaduriaid fel ni.


Fe dalwn ein teyrnged pob un i hen ffrind,
A dymunwn hapusrwydd a iechyd wrth fynd.

A dyna 'rol trigain medd Gareth wrth Dduw,
Mi wn fod yr Iesu fy Mhrynwr yn fyw.

Mel Morgans

**Gareth Richards**

# Sir Gaerfyrddin mewn 100 gwrthrych




Sir hen abatai a phriordai, sir y Ficer Pritchard a Griffith Jones, Pantycelyn, Peter Williams a'r brodyr Charles, sir yr emynwyr mawr – cyfrannodd Sir Gaerfyrddin lawer i'n hanes cenedlaethol a chrefyddol.

Mewn cyfrol ddwyieithog newydd, sef *Sir Gaerfyrddin mewn 100 Gwrthrych*, mae arteffactau gweladwy yn aml yn deffro teimladau a phontio'n ôl dros y blynyddoedd – y gweladwy yn deffro atgof o'r anweladwy. Gall gwrthrych y medrwn ei ddal yn ein dwylo ddatgloi'r cof.

Yn y drysorfa hon, disgrifir cant o eitemau ac mae llun crefftus llawn lliw o bob un ohonyn nhw gyferbyn â'r testun. Cloc William Williams, cwpan cymun o'r unfed ganrif ar bymtheg, Beibl a fu yn y Crimea – mae'r gwrthrychau'n amrywiol ac weithiau'n annisgwyl.

Anrheg Nadolig delfrydol a llyfr i bori'n hamddenol ynddo – a'r cyfan am £20 yn unig. Mae'r gyfrol hardd hon ar werth yn siopau llyfrau'r sir ac ar gael oddi wrth Eurig Davies e.davies11@btinternet.com.

# Barn Annibynnol

## Pedwerydd Sul yr Adfent

Ar bedwerydd Sul yr Adfent – 21 Rhagfyr eleni – mae sylw ein defosiwn ar gariad, ac mi fydd rhai cynulleidfaoedd yn cynnau pedwaredd gannwyll yr Ŵyl, cannwyll cariad, wrth i ni aros dyfodiad y Gwaredwr.

Mae paratoi ar gyfer y Nadolig yn gyfle i ni werthfawrogi o'r newydd fod cariad diderfyn Duw ar gyfer pawb yn ddiwahân. Dyma adeg i lawenhau a diolch am yr holl fendithion a gawsom, ac edrych ymlaen yn ddisgwylgar at y fendith fwyaf oll. Yn draddodiadol, cofiwn am Fair wrth iddi baratoi am y Nadolig cyntaf – dryslyd ond gogoneddus – hwnnw, gan ddathlu cariad Duw a chyflawni proffwydoliaeth.

### Neges cariad

Dyma'r adeg y clywyd neges oesol yr angylion gyntaf: 'Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar ei bobl' (Luc 2:14), ac ymysg adnodau eraill sy'n pwysleisio cariad y mae: 'Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig anedig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol' (Ioan 3:16-17). Mae'r pwyslais yn gyson ar gariad Duw at y ddynoliaeth a'r alwad ar i gredinwyr garu ei gilydd.

Yn ôl Efengyl Luc, roedd Mair mam yr Iesu, ac Elisabeth mam Ioan Fedyddiwr, yn perthyn i'w gilydd ac yn feichiog ar yr un pryd. Dywed Luc i Elisabeth gydnabod awdurdod mab Mair, a oedd eto heb ei eni, ac i Fair ymateb gyda'r gân ryfeddol o glod a diolchgarwch – y Magnificat, sy'n pwysleisio ffydd Mair a'i pharodrwydd i ymostwng a derbyn cynllun Duw ar ei chyfer.

Mewn rhai traddodiadau gelwir y bedwaredd gannwyll yn 'Gannwyll yr Angel' – symbol o gariad Duw a'r hedd a ddaw yng Nghrist. Mae'n arwydd o'r paratoadau olaf cyn y Nadolig, nid yn gymaint ein mân baratoadau ni – y siopa funud olaf a threfniadau materol yr Ŵyl – ond amser i ystyried a rhoi amser i ymbaratoi'n ysbrydol ar gyfer geni Crist i'r byd – a'i eni yn ein calonnau.



### Tywyllwch a gwawr

Y gwir amdani yw bod llawer o'n byd y Nadolig hwn eto yn llwyr amddifad o gariad. Er i Dduw gynnig ei gariad a'i heddwch, dewisodd cymaint o'r ddynoliaeth wrthod hynny a chodi arfau. Oni chawsom ein imiwneiddio a'n dadsensiteiddio i'r lluniau a'r adroddiadau a welwn ac a glywn o'r dioddefaint a ddaw yn sgil rhyfel? Hen gliché – ond mae'n digwydd bod yn wir. Mae rhyfel a'i greulondeb mor gyffredin fel nad yw'n hawlio penawdau'r newyddion bellach – er bod y brwydro'n parhau, nid yn unig yn Gaza ac Wcràin ond yn Iemen, Myanmar a meysydd brwydro eraill yn Affrica a'r Dwyrain Canol.

Gwyddom oll am eiriau trawiadol Tony Llywelyn ar alaw enwog Leonard Cohen 'Haleliwia'. Efallai i chi glywed John Cale o'r Garnant yn canu'r gân Saesneg yn y ffilm *Shrek*. Gyda sêl bendith Cohen, recordiodd Brigyn fersiwn Gymraeg Tony Llywelyn yn 2005, a gwaetha'r modd mae'r geiriau a gyfansoddwyd ugain mlynedd yn ôl yr un mor berthnasol heddiw ag erioed.

Mewn dwrn o ddur mae'r seren wen
Mae cysgod gwn tros Bethlehem
Dim angel gwyn yn canu Haleliwia.
Codi muriau, cau y pyrth,
Troi eu cefn ar werth y wyrth,
Mor ddu yw'r nos ar strydoedd
Palesteina.
Haleliwia, Haleliwia.

Mae weiren bigog gylch y crud,
A chraith lle bu Creawdwr byd,
Mae gobaith yno'n wylo ar ei glinia'.
A ninnau'n euog bob yr un,
Yn dal ei gôt i wylio'r dyn
Yn chwalu pob un hôl o Haleliwia.
Haleliwia, Haleliwia.

Mae'r nos yn ddu mae'r nos yn hir,
Ond mae 'na rai sy'n gweld y gwir,
Yn gwybod fod y neges mwy na geiria'.
Mai o'r tywyllwch ddaw y wawr,
A miwsig ddaeth â'r muriau lawr,
Daw awr i ninnau ganu Haleliwia.
Haleliwia, Haleliwia.

Yn ein bywydau ein hunain, onid ydym oll yn rhy barod i 'godi muriau' a 'chau y pyrth'?

O gofio'r fasnach arfau a'n tawedogrwydd yn wyneb anghyfiawnder a gormes ledled y byd, onid 'dal ei got' a wnawn ninnau tra bod y bwli'n dal i chwalu hawliau dynol sylfaenol? Parhawn i ddeisyf a gweddïo am ddydd pan na fydd dyrnau dur yn llywodraethu, pan fydd y tywyllwch yn ildio i wawr tangnefedd, a heddwch gwirioneddol a pharhaol yn disodli gwrthdaro a dioddef. Dyna'n gobaith a'n gweddi'r Nadolig hwn eto.

**Eurig Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Mab y mans yn gadeirydd y Cyfundeb



Cafodd y Parchg Gareth Ioan ei urddo'n gadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin am y flwyddyn 2026 mewn Cwrdd Chwarter yng nghapel Seilo, Llangeler. Dyma fe'n arwyddo Beibl y Cyfundeb gyda'r cyn-gadeirydd, Jean Lewis.

Mae Gareth yn fab i'r diweddar Barchg John Pinion Jones, oedd yn weinidog gyda'r Presbyteriaid, er bod teulu ei fam wedi bod yn aelodau mewn eglwysi Annibynnol o fewn y Cyfundeb. Bu Gareth Ioan mewn gwahanol swyddi cyn cael ei ordeinio i'r weinidogaeth Gristnogol yn 2020. Mae'n weinidog ar eglwysi Annibynnol Nanternis, Blaen-y-coed, Bryn Iwan a Moreia Blaenwaun. Dymunwn bob bendith iddo yn ystod tymor ei gadeiryddiaeth ar Gyfundeb o 2,000 o aelodau a 36 eglwys.

*(Daw adroddiad llawn o'r Cwrdd Chwarter yn Seilo ac anerchiad Gareth Ioan maes o law)*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***

**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Sgwrs rhwng Cymru a'r byd

Felly, rwy newydd ddod nôl o gynhadledd i Ysgrifenyddion Cyffredinol CWM (Cyngor Cenhadaeth Fyd-eang – Council for World Mission) a gynhaliwyd yn Abaty Missenden, Great Missenden y tu allan i Lundain. Roeddwn i yng nghwmni ysgrifenyddion o 36 eglwys o *bob cwr o'r byd*. Dychmygwch! Roedd pobl wedi teithio o'u gwledydd er mwyn dod ynghyd fel chwiorydd a brodyr i'n gilydd.

## Amlieithog

Fe hoffen i rannu gyda chi fy mod i wedi teimlo'n emosiynol wrth i ni gael cymun gyda'n gilydd a phawb yn dweud yr un geiriau gyda'i gilydd yn Saesneg. Rydyn ni fel Cymry'n poeni am ein hiaith am fod angen poeni amdani, oni bai ein bod ni'n siarad Cymraeg mae yna berygl y bydd hi'n diflannu, y mae'n gyfnod o ddifodiant ieithyddol arnom. Ond yn y cymun hwnnw roedd bron pob un ohonom yn cymuno drwy gyfrwng ein hail (neu drydedd) iaith, ac roedd hynny'n beth prydferth iawn. Pawb yn rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu ac yn dod ynghyd. A dyma ni, o Gymru fach, yn rhan gyfartal o gymuned y byd.

## Ni yw CWM

Y mae CWM yn sefydliad sy'n debyg iawn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Dychmygwch hynny eto! Rydyn ni, enwad gweddol fychan, yn debyg i sefydliad mawr byd-eang. Y mae gan yr Undeb swyddfa (Tŷ John Penri) sy'n cefnogi'r eglwysi unigol (chi) i fod yr eglwysi gorau y medrwch chi fod, ond *chi* sy'n penderfynu sut mae eich eglwysi chi yn gwneud eu gwaith yn eich cymunedau, eich eglwys *chi* yw hi, a *chi* yn eich tro sy'n gwneud yr Undeb yn beth ydyw. Ac mae CWM yn nodi mai *ni* (yr enwadau) yw CWM. Roeddwn i'n falch i glywed hynny, ac roeddwn i'n falch i ddeall fod gennym bethau sylfaenol yn gyffredin â'n gilydd.





## Cyfeillgarwch

Nawr, rydw i'n dod at hyn o fan o anwybodaeth gymharol, fel rhywun sy'n newydd yn ei swydd. Roeddwn i'n lled gyfarwydd ag CWM ond heb ddeall yr *holl* waith y mae CWM yn ei gyflawni er mwyn gwneud gwahaniaeth real a go iawn mewn cymunedau ar draws y byd, gan gynnwys yn ein cymunedau *ni*. Ie, mae CWM yn gwneud gwahaniaeth i ninnau hefyd. Achos maen nhw'n ein hannog i rannu, i gynnal deialog neu sgwrs â gweddill y byd a bod yn rhan o rywbeth mwy. Mae gan CWM raglenni sy'n gweithio i wella anghyfiawnder, anghyfartaledd, a chreu bywyd yn ei gyflawnder, i *bawb ym mhob man*. Yr hyn a darodd fi hefyd oedd y cyfeillgarwch real oedd rhwng y gwledydd i gyd ar lefel hollol gyfartal yn y gynhadledd, mae gan bawb ei stori a phob stori yn werth ei chlywed. Amen i hynny ddyweda i.

## Dyrchafol

Yn ogystal â'r tridiau o astudiaethau Beiblaidd, y darlithoedd, y cyflwyniadau a'r cyfleoedd i rannu syniadau a phrofiadau a chreu cyfeillgarwch; ar y diwrnod olaf cawson ni daith i ganol Llundain a'r cyfle i addoli gyda chynulleidfa eglwys Annibynnol Capel y Boro', Southwark. Ac am brofiad dyrchafol, dod ynghyd ac addoli yn Gymraeg a Saesneg gyda'n cyfeillion o bob cwr. Roedd y croeso'n gynnes a'r canu'n wych. Yna, fe gawsom wahoddiad i'r festri er mwyn cyd-fwyta a rhannu cwmni'n gilydd. Rwy'n credu fod bron i 80 ohonom yno, ac roedd y lle dan-ei-sang. Diolch i chi Capel y Boro' am ddangos y gorau o Gymru i'r byd, a hynny ynghanol Llundain.

Yr ydym ni'n wlad fechan ond wir, mae'n llesol i ni gofio ein bod ni'n rhan o deulu Duw drwy'r byd.

**Elinor Wyn Reynolds**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*